Cofnodion cyfarfod hybrid y **CYNGOR** a gynhaliwyd nos Fercher, 17 Mehefin 2026, am 6.00pm.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE (Maer)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs M. A. Blakeley-Walker, Mrs E. M. Chard, Mrs S. L. Connolly, Mrs J. M. Evans, A. R. James, C. L. Jones, K. R. Jones, Ms J. L. McAlpine, W. Price, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, D. Simmons, A. Walker a Miss C. L. Williams.

Mrs H. J. Mead – Clerc y Dref
Mrs T. A. Jones – Dirprwy Glerc y Dref

## 19. DECHRAU'R CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Mrs S. L. Connolly, B. Mellor a Ms R. S. Roberts.

Croesawodd y Maer bawb i'r cyfarfod.

## 20. DATGAN BUDDIANNAU

Gofynnodd y Maer a oedd gan yr aelodau unrhyw fuddiant personol neu fuddiant personol ac sy'n rhagfarnu i'w datgan yng nghyswllt unrhyw eitem o fusnes i'w ystyried ar yr agenda.

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

## 21. PENODI CADETIAID ANRHYDEDD Y MAER

Croesawodd y Maer ei chadetiaid, Sarjant Hedfan Evie Mitchell a'r Dirprwy Gadet, y Corporal Keira Harper, o Gadetiaid Awyr y Rhyl i'r cyfarfod, a diolchodd iddynt am gytuno i gyflawni'r rolau.

Esboniodd Clerc y Dref pam fod Evie a Keira wedi cael eu dewis gan y grŵp, cyn i'r Maer eu gwahodd i ddod ymlaen i dderbyn eu bathodynnau a thynnu llun.

## 22. COFNODION

Cyfarfod Blynyddol y Cyngor - 20 Mai 2025 - Cofnodion rhifau 1- 18

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A.R. James ac eiliwyd gan y Cynghorydd W. Price, a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

## 23. ADRODDIAD Y MAER

Cyfeiriodd y Maer at yr adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn nodi'r digwyddiadau y bu ynddynt yn ystod y mis diwethaf, gan nodi, yn benodol, fod

mynd i ddathliad Diwrnod Annibyniaeth y FflilipÎn wedi bod yn achlysur gwych a dangosodd sash a roddwyd yn anrheg i'r Cyngor.

## 24. CYLCH GWAITH PWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU YN 2026/2027

Cyfeiriodd y Maer at yr adroddiad Cylch Gwaith blynyddol (a ddosbarthwyd gyda'r agenda), yn cadarnhau cylch gwaith pob un o'r pwyllgorau a'r is-bwyllgorau.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

## 25. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU MIS EBRILL A MIS MAI 2026 (ATODLEN A)

Cyfeiriodd y Maer at adroddiad Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn nodi'r taliadau a wnaed a'r incwm a dderbyniwyd.

Mis Ebrill

| Taleb rhif: | Enw'r cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad y gwasanaethau a ddarparwyd |
|---|---|---|---|
| 2199 | BT | 378.00 | BT Neuadd y Dref - ffonau a band eang |
| Amherthnasol | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| Amherthnasol | Tesco | 9.00 | Ffôn symudol |
| 2200 | O2 | 52.20 | Ffonau symudol |
| 2204 | Cyngor Sir Ddinbych | 831.00 | Y Dreth Gyngor Canolfan Cymuned Ffordd Wellington 1 o 10 |
| 2203 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 9,190.42 | Tâl net i bedwar aelod o staff – mis Ebrill 2026 |
| 2201 | Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi | 3,455.74 | Talu wrth Ennill – mis Mawrth 2026 |
| 2202 | Cyngor Sir y Fflint | 3,280.52 | Cyfraniadau pensiwn – mis Mawrth 2026 |
| Amherthnasol | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| | **Cyfanswm y taliadau** | **17,202.88** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm £ |
|---|---|---:|
| Santander | Llog ar y cyfrif hysbysiad 31 diwrnod | 207.64 |
| Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi | Ad-daliad Treth ar Werth Chwarter 4 2025/26 | 11,900.62 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif adneuo 1 mis | 690.85 |
| Cyngor Sir Ddinbych | Praesept 26/27 – Taliad 1 o 3 | 193,333.33 |
| | **Cyfanswm yr incwm** | **206,132.44** |

Mis Mai:

| Taleb rhif: | Enw'r cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad y gwasanaethau a ddarparwyd |
|---|---|---|---|
| 2212 | BT | 92.46 | BT – offer Neuadd y Dref |
| 2213 | BT | 378.00 | BT Neuadd y Dref - ffonau a band eang |
| Amherthnasol | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| 2214 | O2 | 58.08 | Ffonau symudol |
| Amherthnasol | Tesco | 9.54 | Ffôn symudol |
| 2204 | Cyngor Sir Ddinbych | 828.00 | Y Dreth Gyngor Canolfan Cymuned Ffordd Wellington 2 o 10 |
| 2220 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 9,220.37 | Tâl net i bedwar aelod o staff – mis Mai 2026 |
| 2218 | Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi | 3,576.59 | Talu wrth Ennill – mis Ebrill 2026 PAYE |
| 2219 | Cyngor Sir y Fflint | 2,776.35 | Cyfraniadau pensiwn – mis Ebrill 2026 |
| Amherthnasol | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| 2229 | Cyngor Sir Ddinbych | 32,038.00 | Benthyciad SC2 – Taliad 1 o 3 yn 2026/27 |
| | **Cyfanswm y taliadau** | **48,983.39** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm £ |
|---|---|---|
| Santander | Llog ar y cyfrif hysbysiad 31 diwrnod | 256.44 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif adneuo 1 mis | 660.82 |
| | **Cyfanswm yr incwm** | **917.26** |

[Ymunodd y Cynghorydd Ms J. McAlpine â'r cyfarfod.]

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

## 26. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyfeiriodd y Maer at Atodlen B a gyflwynwyd gan Glerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (rhestr o daliadau rheolaidd i'w rhyddhau yn ystod y mis nesaf) (a ddosbarthwyd gyda'r agenda).

| Taleb | Cyflenwr | Manylion y cyflenwad | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 2216 | MDM Garden Service | Triniaeth i'r lawnt yn y Gerddi Coffa | £42.00 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2217 | James Hallam Insurance | Premiwm ychwanegol am gynnwys a'r lleoliad newydd | £62.75 |
| 2218a | Mr Shifter Removals | Symud offer a nwyddau o Ganolfan Cymuned Wellington Road i Neuadd y Dref | £882.00 |
| 2215 | BK Plus Limited (Sage & Co yn flaenorol) | Ffioedd cyflogres Chwarter 4 (mis Ionawr – mis Mawrth 2026) | £113.40 |
| 2221 | Sandra Williams | Gwasanaeth cyfieithu | £279.37 |
| 2222 | Cyngor Sir Ddinbych | Tâl gwasanaeth y Swyddfeydd Dinesig, Canolfan Cymuned Ffordd Wellington, Chwarter 4 2026/27 (terfynol) | £2,297.75 |
| 2223 | Link Tree | Cais tanysgrifio i wefan | £78.00 |
| 2224 | Canda Copying Ltd | Rhentu'r llungopïwr (yr hen un) | £259.32 |
| 2225 | Canda Copying Ltd | Ffioedd llungopïwr | £148.94 |
| 2226 | Siemens Financial Services Ltd | Ffi rhentu'r llungopïwr newydd yn Neuadd y Dref | £476.35 |
| 2227 | Tesco | Stampiau | £28.88 |
| 2228 | Tesco | Anrhegion yn y Cyfarfod Blynyddol Gifts | £52.45 |
| 2234 | Hamdden Sir Ddinbych Cyf | Tâl gwasanaeth am swyddfa Neuadd y Dref 2026/27 | £7,586.30 |
| 2235 | Hamdden Sir Ddinbych Cyf | Rhentu a llogi ystafell swyddfa Neuadd y Dref 2026/27 | £8,200.00 |
| 2236 | JDH Business Services Ltd | Ffi'r Archwiliad Mewnol terfynol 2026/27 | £505.20 |
| 2237 | Ambiwlans Sant Ioan | Pecyn cymorth cyntaf i'r swyddfa | £41.34 |
| 2238 | Amazon | Coffi a phecynnau llefrith ar gyfer y Sul Dinesig | £29.00 |
| 2239 | Amazon | Cwpanau ar gyfer y Sul Dinesig | £11.14 |
| 2240 | Home-Start Cymru for Families | Cyfraniad i gynllun Home-Start yn y Rhyl 2026/27 | £2,000.00 |
| 2241 | Amazon | Coffi dim caffin ar gyfer y Sul Dinesig | £14.94 |
| 2247 | Cyngor Sir Ddinbych | 6 lamp LED yn y Gerddi Coffa | £5,756.18 |
| 2248 | Keith Freeburn | Ffotograffiaeth yn y Cyfarfod Blynyddol | £195.00 |
| 2249 | Butteez Ltd | Arlwyo ar gyfer y Cyfarfod Blynyddol 20/05/26 | £168.00 |
| 2250 | Butteez Ltd | Arlwyo ar gyfer y Sul Dinesig | £600.00 |
| 2251 | Tesco | Diodydd ar gyfer y Sul Dinesig | £3.80 |
| 2252 | Amazon | Pocedi plastig A4 | £25.37 |
| 2253a | Y Cyng. J Butterfield | Lwfans y Maer 2026/27 – taliad 1 o 3 (llai ffioedd banc £17.00) | £416.33 |
| 2253b | Y Cyng. J Butterfield | Lwfans Uwch Swydd 2026/27 – taliad 1 o 3 | £166.67 |
| 2254a | Y Cyng. W Price | Lwfans y Dirprwy Faer 2026/27 – taliad 1 o 3 | £133.33 |
| 2254b | Y Cyng. W Price | Lwfans Uwch Swydd 2026/27 – taliad 1 o 3 | £166.67 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2255 | Sandra Williams | Gwasanaeth cyfieithu | £530.96 |
| 2256 | B&W Builders & Decorators Ltd | Gwaith trwsio i dafarn y Lorne (difrod wedi'i achosi gan y goleuadau Nadolig) | £4,237.68 |
| | **Cyfanswm Atodlen B** | | **£35,509.12** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen i'w thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

## 27. COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU – LWFANSAU I AELODAU 2026/27

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei hadroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn ymwneud â pholisi'r Cyngor Tref ynghylch talu lwfansau yn unol â phenderfyniadau Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol Blynyddol y Comisiwn.

Cynghorodd Clerc y Dref mai'r unig newid yn yr adroddiad eleni oedd cynnwys yn swm y taliad dewisol colledion ariannol ac atgoffodd yr aelodau i glicio ar y ddolen yn yr adroddiad i un ai dderbyn neu wrthod y lwfansau y mae ganddynt yr hawl iddynt.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad a pholisi cydnabyddiaeth ariannol i aelodau yn 2026/27.*

## 28. ARCHWILIAD MEWNOL – ADRODDIAD TERFYNOL 2025-26

Cyfeiriodd Clerc y Dref at adroddiad terfynol yr archwilydd mewnol (a ddosbarthwyd gyda'r agenda), a oedd yn nodi dau fater.

Y cyntaf oedd y dylid bod wedi cael anfoneb am nwyddau a brynwyd o Amazon, nid crynodeb o'r archeb yn unig.

Yn ail, ni ofynnwyd am dri dyfynbris gan ein hymgynghorydd Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu i brynu pum gliniadur newydd, gyda'r gost yn uwch na'r trothwy £5,000.

Ychwanegodd Clerc y Dref y derbyniwyd y ddau fater a bod yr Is-bwyllgor Asesu Risgiau wedi ymdrin â'r ddau.

***PENDERFYNWYD***:

*(i)* *derbyn adroddiad yr archwilydd mewnol a nodi'r materion a nodwyd a'r camau gweithredu dilynol.*

*(ii)* *cyfeirio'r ddau fater i'r Is-bwyllgor Asesu Risgiau i'w monitro yn y dyfodol.*

## 29. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2025-26

Gofynnodd Clerc y Dref i'r aelodau gadarnhau'r datganiad (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) gan dynnu sylw bod 10 datganiad yn Rhan 1 yn gofyn i'r Cyngor Tref ateb 'ie' neu 'na' iddynt.

Atebwyd wyth o'r 10 gydag 'ie' a dau gyda 'na', a chyfeiriodd yn gryno am y rhesymau am y ddau ateb 'na'.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r datganiad a'i lofnodi gan y Maer ar ran y Cyngor Tref.*

## 30. DATGANIAD BLYNYDDOL 2025-26

Cyfeiriodd Clerc y Dref at y Datganiad Blynyddol (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) i'w aelodau ei gymeradwyo ac awdurdodi'r Maer i'w lofnodi ar ran y Cyngor Tref.

Gofynnodd Clerc y Dref i'r aelodau ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau o ran yr archwilydd allanol, Swyddfa Archwilio Cymru, a benodir gan Lywodraeth Cymru.

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo Datganiad Blynyddol 2025-26 a'i lofnodi gan y Maer ar ran y Cyngor Tref, i'w gyflwyno i Swyddfa Archwilio Cymru.*

## 31. CAIS GAN DREFNWYR CARNIFAL Y RHYL

Dywedodd Clerc y Dref fod y trefnwyd wedi gofyn i'r Cyngor Tref roi dri thocyn anrheg fel gwobrau cystadlaethau ar gyfer y carnifal eleni, fel y gwnaeth y llynedd.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo tri thocyn anrheg gwerth £20 yr un*

## 32. GWAITH TRWSIO I WAL ALLANOL TAFARN Y LORNE

Hysbysodd Clerc y Dref, o ganlyniad i wyntoedd cryfion yn ystod cyfnod y Nadolig y llynedd roedd un o'r goleuadau ar draws y stryd a oedd yn sownd i dafarn y Lorne wedi ei chwythu i lawr, gan achosi difrod i wal y dafarn.

Yn dilyn derbyn dyfynbris i drwsio'r difrod gan wasanaeth Goleuadau Stryd Cyngor Sir Ddinbych, gan y Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng y ddau awdurdod, yn niwedd mis Ebrill am £3,531.40 + TAW (yn cynnwys yr holl ganiatâd, sgaffaldau a'r gwaith trwsio) roedd hi wedi cael cymeradwyaeth cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol i dderbyn y dyfynbris a threfnu cyflawni'r gwaith.

Gweithredwyd yn y dull hwn er mwyn gwneud y gwaith trwsio i wal y dafarn yn ddiymdroi ac i osgoi cynnydd posibl yn y prisiau, petai wedi aros tan y cyfarfod heno i gymeradwyo'r dyfynbris a'r gwaith.

Cynghorodd Clerc y Dref fod y gwaith wedi'i gwblhau a gofynnodd i'r aelodau gymeradwyo'r camau gweithredu.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r camau gweithredu.*

**33. CAIS GAN SIR DDINBYCH YN GWEITHIO**

Hysbysodd Clerc y Dref fod y Swyddog Ymgysylltu newydd, Tyra Beattie, wedi gwneud cais i ddod i gyfarfod y Cyngor Tref yn y dyfodol i gyflwyno ei hun ac esbonio'r gwasanaethau a gynigir gan Sir Ddinbych yn Gweithio, i'r aelodau eu hystyried.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r cais.*

**34. SESIWN HOLI AC ATEB**

Nid oedd unrhyw aelodau'r cyhoedd yn y cyfarfod.

**35. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn, yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ar sail cyfrinachedd.*

**36. PROSIECTAU'R PROMENÂD CANOLOG A PHARTH Y CYHOEDD Y GRONFA ADFYWIO LEOL**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei hadroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd gyda'r adroddiad), i'r aelodau ei ystyried.

***PENDERFYNWYD*** *fod yr aelodau'n cymeradwyo'r cynigion ynghylch ailfodelu tŵr y cloc a'r parc poced, ac i Glerc y Dref gynnal trafodaethau gyda'r swyddogion prosiect perthnasol yn achos y ddau.*

**37. COFNODION CYFRINACHOL**

Cyflwynwyd y cofnodion a ganlyn (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) er gwybodaeth i'r aelodau ac i gymeradwyo'r argymhellion a gynhwyswyd ynddynt:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol | - | 9 Mawrth 2026 | - | Cofnodion rhifau 7 – 13 |
| Y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol | - | 23 Mawrth 2026 | - | Cofnodion rhifau 14 – 18 |
| Y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol | - | 13 Ebrill 2026 | - | Cofnodion rhifau 19 – 27 |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r cofnodion.*

**38. <u>DIWEDD Y CYFARFOD</u>**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod, cyhoeddodd y Maer ddiwedd y cyfarfod.

Maer: ……..…………………..

Dyddiad: ………………..………..